

TUDALEN 45

Cofnodion **Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid** o bell, a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom **nos Lun 18 Hydref 2021** am 6.30 pm.

YN BRESENNOL: - Cynghorwyr George Turner (Cadeirydd), Eu Teilyngdod y Maer, Owen Hurcum, Les Day, John Wynn Jones, Kieran Jones, John Martin, Enid Parry (gadawodd y cyfarfod am 8.05pm), Gareth Roberts (gadawodd am 7.52pm), Gwynant Roberts.

Swyddogion:- Iwan Williams (Cyfarwyddwr Dinesig), Paul Rowlinson (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion)

120/21 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Elin Walker Jones, Nigel Pickavance, Mair Rowlands.

121/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Cynghorydd Les Day yn Eitem 6 gan ei bod yn un o ymddiriedolwyr Cyngor ar Bopeth Gwynedd.

122/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Maris Stewart-Parker o Gymdeithas Alzheimer's Cymru.

123/21 BANGOR DEMENTIA GYFEILLGAR: TRAFODAETH GYDA CHYMDEITHAS ALZHEIMER'S

Cyflwynwyd Maris Stewart-Parker, sef Swyddog Cymunedau Dementia Gyfeillgar Gogledd Cymru. Eglurodd mai ei rôl hi oedd helpu i hwyluso'r rhaglen cymunedau dementia gyfeillgar yng ngogledd Cymru, ac roedd hi yn y cyfarfod i weld sut gallai Cyngor Dinas Bangor o bosibl ddod yn sefydliad sy'n deall dementia.

Rhododd rywfaint o gefndir a nod y rhaglen, ac esboniodd mai'r cam cyntaf i fod yn sefydliad sy'n deall dementia fyddai i'r Cynghorwyr (a'r staff) ddod yn gyfeillion dementia eu hunain. Byddai'r aelodau'n cael eu gwahodd i fynychu sesiwn 45 munud (ar gael yn Gymraeg a Saesneg) i egluro beth yw dementia, a beth nad ydyw, a ffyrdd o gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a lleadaenu ymwybyddiaeth. Yn dilyn hyn, mae o gymorth cael 'eiriolwr dementia' yn y sefydliad a fyddai'n arwain ar sicrhau fod y corff yn dal yn un sy'n deall dementia. Yr agwedd nesaf fyddai ystyried yr amgylchedd, h.y. swyddfeydd a mannau cyhoeddus i weld sut gellir eu gwneud yn hawdd eu cyrraedd a mynd o'u cwmpas. Yna byddai'r sefydliad yn llunio Cynllun Gweithredu. Mae digon o adnoddau ar gael ac mae Maris ei hun yn barod i drafod ymhellach. Yn y pen draw dymuniad Llywodraeth Cymru yw i Gymru fod yn "wlad sy'n deall dementia", felly mae digon o gymorth ar gael i gyrff fel Cyngor y Ddinas i ddilyn y siwrne hon.

Diolchwyd i Maris am ei chyflwyniad diddorol ac ysbrydoledig.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r strategaeth hon a threfnu i bob aelod o'r cyngor ynghyd â'r staff gael hyfforddiant i fod yn gyfaill dementia, fel cam cyntaf. **PENDERFYNWYD HEFYD** mai Eu Teilyngdod y Maer, Owen Hurcum, fyddai'r pwynt cyswllt ar gyfer y gwaith hwn.

TUDALEN 46

124/21 DIWEDDARIAD DIGWYDDIADAU A CHEISIADAU CEFNOGAETH ARIANNOL

(i) Digwyddiad Calan Gaeaf y Pier

Adroddodd y Cyng Enid Prry fod digwyddiad Calan Gaeaf teuluol ar y Pier yn cael ei gynnal ar 30 Hydref, o 3-7pm. Bydd hwn yn cynnwys gwisgo i fyny, band Samba, côr Encôr, sgiliau syrcais a lluniaeth. Y prif drefnwyr yw'r Bangor Arts Initiative ac maent wedi gofyn i'r cyngor am gyfraniad arian cyfatebol o hyd at £500.

PENDERFYNWYD cyfrannu at y digwyddiad hwn ond gofyn am adroddiad yn manylu ar sut y gwariwyd yr arian.

(ii) Noson tân gwyllt

Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod y noson hon oedd i ddigwydd ar y Pier wedi gorfod cael ei chanslo. Yr wythnos gynt roedd digwyddiadau tebyg yn cael eu canslo y naill ar ôl y llall yn nhrefi gogledd Cymru, oherwydd pryderon am Covid-19. Pe bai'r digwyddiad ym Mangor yn cael ei gynnal, gallai felly ddenu miloedd o bobl o ardal eang, gyda goblygiadau enfawr i iechyd a diogelwch, Covid ac fel arall, ar y Pier. Dyna pam y bu'n rhaid gwneud cyhoeddiad brys yr wythnos gynt yn canslo'r noson.

Roedd yr aelodau i gyd yn CYTUNO â'r penderfyniad hwn. Cafwyd trafodaeth am beth i'w wneud o hyn ymlaen. Arferai Clwb y Llewod drefnu noson tân gwyllt boblogaidd, ond erbyn hyn mae eu haelodau'n heneiddio gyda llai o wirfoddolwyr, ac felly maent yn annhebygol o allu cynnal noson o'r fath eto.

PENDERFYNWYD fod y Cyngor yn meddwl am gynnal noson tân gwyllt y flwyddyn nesaf, byddai cryn dipyn o waith cynllunio felly dylid ei hystyried yn ddigon o flaen llaw.

(iii) Sul y Cofio

Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod y paratodau'n mynd rhagddynt a bod gwahoddiadau wedi'u hanfon. Roedd angen system sain newydd, gan fod yr un hen yn aneffeithiol ac o bosibl yn beryglus. Roedd un newydd wedi'i harchebu am tua £500, gyda'r arian i ddod o'r gyllideb Digwyddiadau. Dyrannwyd £500 arall ar gyfer lluniaeth yn Neuadd y Penrhyn wedyn, hwn i ddod o Gyllideb Sul y Cofio.

CYMERADWYWYD y trefniadau uchod. Holodd un aelod a fyddai modd cael torch o babi gwyn hefyd gan y *Peace Pledge Union* a chytunwyd i hyn.

(iv) Digwyddiad Lansio Awyr Las ar y Pier

Roedd digwyddiad tebyg i un y llynedd wedi'i drefnu ar gyfer 10 Rhagfyr, lle gallai teuluoedd noddi golau ar y Pier i ddathlu a chofio am anwyliaid. Mae Grŵp Cymunedol Bangor hefyd yn trefnu adloniant ochr yn ochr â'r digwyddiad hwn. Maent wedi gofyn am £200 i brynu anrhegion i'w rhoi gan Siôn Corn.

PENDERFYNWYD rhoi £200 i Grŵp Cymunedol Bangor.

125/21 CAIS GRANT: CYNGOR AR BOPETH GWYNEDD

Roedd papurau cefndir manwl wedi'u hanfon gan CAB cyn y cyfarfod. Fel arfer mae Cyngor ar Bopeth Gwynedd yn cael cyfraniad blynyddol (£1,500) gan Gyngor Dinas Bangor ond nid oedd hyn wedi digwydd yn 2020/21. Eglurwyd fod y cyfraniad hwn o gymorth mawr tuag at gostau eu swyddfa ym Mangor.

Roedd pawb o blaid cyfrannu, ond, tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd CAB Gwynedd yn cydnabod y rhodd yn ei adroddiad blynyddol. Teimlid y dylai pobl wybod fod Cyngor Dinas Bangor yn cyfrannu at y gwasanaeth; byddai hefyd yn un ffordd arall o ateb y cwestiwn oesol, beth mae'r Cyngor yn ei WNEUD?

TUDALEN 47

PENDERFYNWYD gwneud cyfraniad o £1,500 ar gyfer 2021/22 yn amodol ar yr uchod.

126/21 STRWYTHUR STAFFIO

PENDERFYNWYD eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r eitem hon.

Cynhaliwyd yr eitem y tu ôl i ddrysau caeedig.

127/21 PLAC GLYNDŴR: DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Yn dilyn trafodaethau diweddar ynghylch gosod plac i nodi lleoliad y Cytundeb Tridarn enwog, adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod rhywfaint o amheuaeth erbyn hyn am yr union leoliad. Wedi ymgynghori â haneswyr blaenllaw, byddai'n ymddangos mai tŷ'r Deon oedd yr adeilad lle mae *So Chic*, ac nid tŷ'r Archddiacon. Er nad oes neb yn hollol siŵr, y farn gyffredinol yw mai Neuadd y Penrhyn oedd y lleoliad. Cafwyd trafodaeth am werth gosod plac os yw'r manylion hanesyddol yn ansicr. Fodd bynnag, gan mai'r geiriad yw "credir..." roedd yr aelodau o'r farn y byddai Neuadd y Penrhyn yn lle addas i'w osod a

PENDERFYNWYD parhau â'r cynllun.

128/21 COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL: DIWYGIO FFINIAU GWYNEDD AC YMGYNGHORIAD AROLWG 2023 COMISIWN FFINIAU CYMRU

- a) Cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau fod nifer y seddi ar Gyngor Gwynedd yn cael ei gostwng o 75 i 69, gyda Bangor yn mynd i lawr o 11 sedd i 7. Roedd yr aelodau'n anfodlon â'r golled sylweddol yma i Fangor. Eglurwyd mai un rheswm posibl oedd nad yw myfyrwyr yn cael eu cofrestru'n syth ar y Gofrestr Etholiadol erbyn hyn, felly byddai'n ymddangos fod poblogaeth Bangor wedi gostwng ond nid felly y mae.

PENDERFYNWYD fod y Cyngor yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru i leisio'u pryderon am y diffyg cynrychiolaeth.

- b) Mae'r Comisiwn Ffiniau wedi cynnig newidiadau i etholaethau Llywodraeth San Steffan. O dan y cynigion newydd, byddai etholaeth Arfon yn diflannu, byddai Bangor yn cael ei rhannu'n ddwy gyda chanol y ddinas yn ymuno ag etholaeth Aberconwy a'r hanner arall o ganol Penrhosgarnedd yn ymuno â Dwyfor Meirionnydd. Eto **PENDERFYNWYD** mynegi pryderon am y rhaniad annaturiol hwn a gofyn am gael cadw Bangor gyfan yn un uned.
- c) Yn sgil y trafodaethau hyn, nodwyd fod yr aelodau'n dal yn ansicr am gyfansoddiad Cyngor Dinas Bangor yn y dyfodol. Y gred yw y byddai'r un nifer o Gynghorwyr yn cael eu cadw ond byddai'r wardiau'n cael eu hail-ddosbarthu. **PENDERFYNWYD** gofyn am eglurder ar y mater hwn gan Gyngor Gwynedd, gan gofio y bydd etholiadau Mai 2022 yma cyn hir.

179/21 CYLLIDEB Y CYNGOR: TROSGLWYDDO ARIAN

Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod angen £3k arall i osod y system CCTV ar y Pier, fel y cytunwyd eisoes. Cynigiodd drosglwyddo £2k o'r gyllideb digwyddiadau (noson tân gwyllt) i linell wariant CCTV. Hefyd £1k o'r gyllideb gefeillio nad yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Roedd pawb o blaid.

TUDALEN 48

Nodwyd fod yr incwm i'r Pier wedi codi'n sylweddol yn barod eleni, diolch i bresenoldeb gwirfoddolwyr Ffrindiau Pier Garth Bangor, a bydd hyn yn cael ei ystyried wrth osod cyllideb y flwyddyn nesaf.

180/21 ANFONEBAU I'W TALU A MATERION ARIANNOL

Cymeradwywyd talu anfonebu oedd yn dod i gyfanswm o £21,977.18. Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod y rhan fwyaf o'r arian hwn wedi mynd tuag at sgaffaldiau a phren ar gyfer y prosiectau peirianeg ar y Pier. Roedd cyfrifwyr y Cyngor wedi diweddarau'r adroddiad Incwm a Gwariant. Roedd angen gwneud rhywfaint o waith ar gyfrifon eraill a oedd yn cael eu defnyddio'n llai aml, yn bennaf diweddarau'r llofnodwyr. Derbyniodd yr aelodau yr adroddiad ariannol.

181/21 EITEMAU AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

Mae materion staffio yn parhau a byddant yn cael sylw mewn da bryd. I orffen, cyfeiriodd yr aelodau at lofruddiaeth drasig ddiweddar Syr David Amess AS a gofynnwyd i'w Teilyngdod y Maer a oeddent wedi bod yn destun unrhyw ymddygiad bygythiol. Atebwyd nad oeddent wedi cael unrhyw ymddygiad ymosodol o ganlyniad i'w swydd fel Maer y Ddinas.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35 pm

CITY DIRECTOR– Iwan Williams – CYFARWYDDWR DINESIG